



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021
DYDDIAD	26 Mawrth 2021
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/5bMjzJsP/ProposedNegative/>

Trosolwg Polisi o'r Offeryn Statudol (OS):

Gwneir yr offeryn hwn wrth arfer y pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn mynd i'r afael â diffyg yn y gyfraith ddomestig sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae deddfwriaeth Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb yn gymwys i'r DU fel Aelod-wladwriaeth o'r UE ac mae cyfranogiad yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol: i) cyfraniad gwirfoddol wrth baratoi ac ymateb i drychineb, a ii) undod rhwng Aelod-wladwriaethau.

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb yn "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Nid yw dargadw'r deddfwriaeth UE hon yng nghyfraith ddomestig y DU yn ateb unrhyw ddiben gan ei bod yn ddiangen ers i'r DU ymadael â'r UE, a dyna pam y mae'n cael ei dirymu. Mae'r deddfwriaeth yn darparu ar gyfer cyfranogiad ym Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb fel Aelod-wladwriaeth o'r UE, ac nid yw'r DU bellach yn Aelod-wladwriaeth o'r UE. Felly, bydd y dirymiad hwn yn mynd i'r afael â diffyg yn y gyfraith a ddargedwir ac yn cynnal llyfr statud cydlynol er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd cyfreithiol diangen ynghylch cymhwyso'r deddfwriaeth yn y DU.

Ni fydd yn effeithio ar allu'r DU na Chymru i gydweithredu'n ddwyochrog nac ymateb i drychinebau nac ar ein gallu i ofyn am gymorth, os bydd angen.

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:

Mae'r OS yn dirymu Penderfyniad 1313/2013/EU, Penderfyniad (EU) 2019/420 sy'n rheoli Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb, a'r un ar ddeg o ddeddfau gweithredu canlynol:

- Penderfyniad y Cyngor 1999/847/EC
- Penderfyniad y Cyngor 2005/12/EC
- Penderfyniad 1313/2013/EU
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/762/EU
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2018/142
- Penderfyniad (EU) 2019/420
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/570
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1310
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2019/1930
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2020/414
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2020/452

Mae'r OS hefyd yn dirymu Penderfyniad 1999/847/EC a sefydlodd Raglen Gweithredu Cymunedol ym maes diogelu sifil, a Phenderfyniad 2005/12/EC a estynnodd y Rhaglen honno, a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2006.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE a Mekanwaith Diogelu Sifil yr Undeb.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.